**CYPE(6)-20-23 – Papur i'w nodi 9**

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru

26 Mehefin 2023

Annwyl Jayne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Mawrth am gasglu data ar gyfer plant sy’n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal er mwyn llywio ymholiad ac adroddiad y Pwyllgor ar ddiwygiad radical o’r gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

Yn eich llythyr fe gyfeirioch at adborth gan randdeiliaid bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad yn ddiweddar o gyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal er mwyn ystyried y casgliad data, ac fe wnaethoch ofyn am ragor o fanylion.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnal cyfarfod Grŵp Adolygu Data Plant bob mis i drafod y data a gesglir yn y cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal, y cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, ac elfen plant y Fframwaith Perfformiad a Gwella, a'r broses o gasglu data perfformiad.

Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol godi materion a cheisio eglurder ynglŷn â'r broses o gasglu data. Gall y casgliadau newid o ganlyniad i'r trafodaethau hyn a gwneir unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt i'r canllawiau ar gyfer casglu yn y flwyddyn ganlynol. Felly, bydd unrhyw gamau y cytunwyd arnynt o gyfarfodydd 2022/23 yn ymddangos yn y canllawiau casglu data ar gyfer 2023/24. Mae’r canllawiau hyn wedi’u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Efallai bydd y Pwyllgor hefyd am nodi mai'r prif newidiadau o ran data ar blant sy'n derbyn gofal, a fydd yn ymddangos yng nghasgliadau data 2023/24, yw:

- Yn y cyfrifiad Plant sy’n Derbyn Gofal:
  - Ehangu’r categorïau ethnigrwydd
  - Dealltwriaeth well o pryd y bydd plant yn cael eu maethu naill ai drwy asiantaethau nid-er-elw neu asiantaethau preifat
  - Manylion gwell ynghylch gorchmynion lleoli ar gyfer mabwysiadu
- Esboniad ynghylch ymweliadau ac adolygiadau i blant sy'n derbyn gofal yng nghasgliad data’r Fframwaith Perfformiad a Gwella.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gobeithio bod fy ymateb yn ddefnyddiol ichi a bod y dystiolaeth a ddarparwyd yn eich llythyr yn taro goleuni pellach. Edrychaf ymlaen at ddarllen yr adroddiad terfynol gan y Pwyllgor.

Yn gywir,

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services